



making communications work
for everyone

sicrhau bod cyfathrebiadau'n
gweithio i bawb

Safonau'r Gymraeg - Cynllun Gweithredu

Roedd Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 yn rhoi fframwaith cyfreithiol a oedd yn gosod dyletswyddau ar rai sefydliadau i gydymffurfio â safonau mewn perthynas â'r Gymraeg drwy is-ddeddfwriaeth (Rheoliadau Safonau'r Gymraeg). Mae'r safonau a roddwyd ar Ofcom wedi cael eu rhestru yn 'Hysbysiad Cydymffurfio Ofcom - Adran 44 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011'.

Cafodd y ddogfen hon ei chreu er mwyn cydymffurfio â'r safonau canlynol y mae gan Ofcom ddyletswydd i gydymffurfio â nhw - 157, 159, 163 a 165. Bydd y ddogfen hon yn datgan sut rydyn ni'n bwriadu cydymffurfio â'r safonau cyflenwi gwasanaethau, safonau llunio polisïau a'r safonau gweithredol a roddwyd i Ofcom gan Gomisiynydd y Gymraeg. Mae hefyd yn datgan ein trefniadau ar gyfer goruchwyllo, hyrwyddo a hwyluso'r safonau hyn. Mae copi o'r safonau a roddwyd i Ofcom ac y cyfeirir atynt yn y ddogfen hon ar gael ar www.ofcom.org.uk

Isod rydyn ni'n nodi mesurau ychwanegol sydd wedi cael eu rhoi ar waith i sicrhau cydymffurfiad ag unrhyw ofynion newydd a fydd yn deillio o'r safonau Cymraeg newydd.

Ymrwymiad Ofcom i'r Iaith Gymraeg

Mae Ofcom yn wirioneddol o ddifrif ynglŷn â chyflawni ei ddyletswyddau o dan Ddeddf yr Iaith Gymraeg. Rydym wedi ymrwymo i gefnogi'r iaith Gymraeg ac i gymryd rhan lawn yn Safonau newydd y Gymraeg. Rydym yn falch o'n hymrwymiad a'r ffordd yr ydym yn integreiddio'r iaith Gymraeg yn ein gwaith yn ddyddiol. Mae'r hysbysiad cydymffurfio terfynol wedi cael awdurdod, cefnogaeth a chymeradwyaeth lawn Ofcom.

Ein dull gweithredu

Mae dull gweithredu Ofcom ar gyfer darparu gwasanaethau Cymraeg yn canolbwyntio ar y gweithgareddau sy'n wynebu defnyddwyr sy'n dylanwadu ac yn gwneud gwahaniaeth i'r Gymraeg ac sy'n effeithio ar siaradwyr Cymraeg.

Mae'r penderfyniad i ddarparu gwasanaeth Cymraeg yn seiliedig ar y maen prawf canlynol: os ydy'r gwasanaeth dan sylw yn ymwneud â materion sy'n effeithio ar ddefnyddwyr, dinasyddion neu fusnesau yng Nghymru neu'n debyg o fod yn berthnasol iddynt, yna byddwn yn darparu gwasanaeth Cymraeg fel mater o drefn.

Rydyn ni'n ymfalchïo ar drin y Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal. Wrth ddarparu gwasanaeth yn yr iaith Gymraeg, rydym bob amser yn sicrhau nad yw'r iaith Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg. Mae hyn yn berthnasol i gyflwyniad gweledol deunyddiau, pryd a sut caiff y deunyddiau eu cyhoeddi, eu darparu neu eu harddangos, maint, safle ac amlygrwydd y deunyddiau mewn unrhyw le cyhoeddus a'u fformat cyhoeddi.

Rydyn ni'n cynnig bod y dull gweithredu hwn yn cael ei ddefnyddio o dan y drefn Safonau Cymraeg mewn perthynas â darparu cyhoeddiadau, datganiadau newyddion, tudalennau gwe, cyfryngau cymdeithasol a chreu apiau Cymraeg. Bydd hyn yn ein galluogi i adeiladu ar ein harferion presennol mewn ffordd sy'n darparu lefel gwasanaeth gwerthfawr a chymesur i ddefnyddwyr sy'n siarad Cymraeg yng Nghymru. Ar ben hynny, mae'n gyfraniad cadarnhaol at allu dinasyddion a defnyddwyr i ymgysylltu â materion cyfathrebu drwy gyfrwng y Gymraeg.

SAFONAU CYFLENWI GWASANAETHAU

SUT RYDYM YN BWRIADU CYDYMFFURFIO

COFNODI DEWIS IAITH

Mae tîm Ofcom Cymru yn cofnodi dewis iaith rhanddeiliaid allanol ar gronfa ddata feistr sy'n cael ei diweddarau yn ôl yr angen.

GOHEBIAETH

Mae'r holl negeseuon e-bost allanol yn cynnwys y tesun canlynol yn llofnod awtomatig unigolion: -
"Mae croeso i chi gysylltu â mi yn Gymraeg"

Mae papur pennawd corfforaethol newydd Ofcom yn cynnwys fersiwn Cymraeg y logo gyda'r llinell "sicrhau bod cyfathrebiadau'n gweithio i bawb"

RHIFAU/GALWADAU FFÔN

Bydd pob galwad ffôn i swyddfa Ofcom Cymru yn cael ei hateb gyda chyfarchiad dwyieithog. Bydd y rheini sy'n ffonio'r Llinell Gymorth Gymraeg yn cael eu cyfarch yn Gymraeg yn unig. Bydd neges ddwyieithog yn cael ei chwarae ar brif rif Ofcom Cymru y tu allan i oriau swyddfa.

Mae rhif y Llinell Gymorth Gymraeg yn cael ei hyrwyddo ochr yn ochr â rhif canolfan alwadau'r DU.

CYFARFODYDD

Mae'r holl staff yn nhîm Ofcom Cymru yn ymwybodol o'r

HYRWYDDO A HWYLUSO

Er mwyn hyrwyddo a hwyluso gweithredu'r safonau, roedd y Swyddog Iaith Gymraeg wedi cydlynu cynllun cyfathrebu a oedd yn cynnwys y canlynol: -

- Diweddariadau drwy'r broses gosod safonau i Bwyllgor Cynghori Cymru, Pwyllgor y Gwledydd, y Bwrdd Rheoli Polisi a Bwrdd Ofcom.
- Cynhyrchu fideo hyrwyddo sy'n dangos beth fyddai'r safonau'n ei olygu i'r sefydliad, sut byddent yn cael eu rhoi ar waith a beth i'w wneud nesaf.
- Cyflwyniad mewn Sesiwn Briffio i Reolwyr ym mis Ionawr 2017 (ychydig o ddiwrnodau cyn y dyddiad dod i rym sef 25^{ain} Ionawr 2017). Mae'r cyfarfod yn cynnwys pob cydweithiwr sydd mewn rôl rheoli ar draws Ofcom.
- Slotiau mewn cyfarfodydd tîm grwpiau amrywiol ar draws y sefydliad.
- Straeon Loop (mewnwydd Ofcom) yn rheolaidd

GORUCHWYLIO

Mae'r Swyddog Iaith Gymraeg yn gyfrifol am oruchwylio cydymffuriad Ofcom â'r Safonau Cymraeg ac mae'n rheoli'r holl waith cyfieithu a chyhoeddi'r holl ddogfennau Cymraeg. Y Swyddog Iaith Gymraeg ydy'r unig bwynt cyswllt ar gyfer materion sy'n ymwneud â'r Gymraeg a'r hysbysiad cydymffurfio.

Mae'r Swyddog Iaith Gymraeg yn uwch swyddog yn nhîm Ofcom Cymru ac yn siarad Cymraeg yn rhugl.

Penodwyd Cynghorydd Materion Cymraeg ar dîm Ofcom Cymru i gefnogi gwaith y sefydliad yn y Gymraeg a bydd yn ymuno â'r tîm yn ystod yr haf.

Mae'r rheini sy'n penderfynu ynghylch polisïau wedi cael gwybod am yr angen i gydymffurfio â'r set o Safonau Lluo Polisiau a'r angen i lenwi'r Ffurflen Asesu'r Effaith ar y Gymraeg sydd wedi cael ei gwreiddio yn y broses gorfforaethol.

gofynion newydd mewn perthynas â chyfarfodydd ac maent yn cydymffurfio â hynny.

Mae agendâu a chofnodion dwyieithog Pwyllgor Cynghori Cymru yn cael eu llwytho i fyny ar wefan Ofcom ar ôl iddynt gael eu cymeradwyo gan Fwrdd Ofcom.

TRWYDDEDAU

Mae staff perthnasol yn ymwybodol ac mae gweithdrefnau priodol wedi cael eu rhoi ar waith i sicrhau cydymffurfiad os bydd trwyddedai yn gofyn am fersiwn Cymraeg o'i drwydded.

CYFIEITHU

Mae'r penderfyniad i ddarparu gwasanaeth Cymraeg yn seiliedig ar y maen prawf canlynol: os ydy'r gwasanaeth dan sylw yn ymwneud â materion sy'n effeithio ar ddefnyddwyr, dinasyddion neu fusesau yng Nghymru neu'n debyg o fod yn berthnasol iddynt, yna byddwn yn darparu gwasanaeth Cymraeg fel mater o drefn.

Mae'r dull gweithredu hwn yn cael ei ddefnyddio o dan y drefn Safonau Cymraeg mewn perthynas â darparu cyhoeddiadau, datganiadau newyddion, tudalennau gwe, cyfryngau cymdeithasol a chreu apiau Cymraeg.

DATGANIADAU NEWYDDION/DOGFENNAU A FFURFLENNI

Mae Swyddog Iaith Gymraeg Ofcom yn cyfrannu at alwad cynhadledd wythnosol gyda'r tîm Cyfathrebiadau ym mhencadlys Ofcom ac yn dynodi'r angen i gyfieithu datganiadau newyddion, dogfennau a thestun diweddar. Mae'r rhain i gyd yn cael eu cyfieithu yn unol â Gweithdrefn Safonol Ofcom ar gyfer Cyfieithu dogfennau.

- Cyhoeddi datganiad newyddion i'r cyfryngau yng Nghymru ar 25^{ain} Ionawr 2017 yn tanlinellu ymrwymiad Ofcom i'r Gymraeg.

Gofynnir am gymeradwyaeth ar gyfer Adroddiad Blynyddol Ofcom drwy'r sianeli llywodraethu perthnasol ar yr adeg briodol cyn cyflwyno i'r Comisiynydd Iaith

Mae holl ffurflenni cwyno Ofcom wedi cael eu cyfieithu a'u cyhoeddi ar wefan Ofcom. Bydd y rhain yn cael eu diweddarau yn Gymraeg ar yr un pryd ag y bydd unrhyw newidiadau'n cael eu gwneud i'r fersiynau Saesneg.

GWEFAN/APIAU/CYFRYNGAU CYMDEITHASOL

Mae tudalennau Cymraeg gwefan Ofcom yn cael eu diweddarau a chyhoeddir deunyddiau bob dydd.

Mae'r botwm i doglo rhwng y Gymraeg a'r Saesneg yn ymddangos drwy wefan Ofcom ac mae'n ddolen uniongyrchol rhwng y cynnwys Saesneg a'r cynnwys Cymraeg cyfatebol pan fydd ar gael.

Rydyn ni'n ymateb yn Gymraeg i sylw ar gyfryngau cymdeithasol yn Gymraeg.

ARWYDDION

Mae holl arwyddion corfforaethol Ofcom Cymru yn ddwyieithog.

DYFARNU GRANTIAU

(dim ond mewn perthynas â grantiau sy'n cael eu dyfarnu yng Nghymru)

Mae gan Ofcom bwerau i ddyfarnu grantiau mewn dau faes: (a) grantiau i drwyddedigion radio cymunedol o dan Ddeddf Cyfathrebiadau 2003 a (b) grantiau at ddibenion effeithlonrwydd sbectrwm o dan Ddeddf Telegraffiaeth Ddi-wifr 2006.

Mewn perthynas ag (a), mae gan Ofcom bwerau o dan Ddeddf Cyfathrebiadau 2003 i ddyfarnu grantiau i drwyddedigion radio cymunedol ac mae'r Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon wedi'i wneud yn

gyfrifol am weinyddu'r Gronfa Radio Cymunedol. Mae'r nodiadau cyfarwyddyd sydd wedi'u cyhoeddi gennym ar hyn o bryd yn nodi mai bwriad y Gronfa ydy helpu i gyfrannu at gostau craidd cynnal gorsafoedd radio cymunedol. Mae swyddogaethau craidd yn cynnwys codi arian i gefnogi'r orsaf, rheoli, gweinyddu ac allgymorth cymunedol er enghraiff (gweler <http://stakeholders.ofcom.org.uk/binaries/broadcast/radio-ops/crf/crfguidancenotes.pdf>).

Mae safon 90 yn mynnu bod Ofcom yn ystyried rhai materion sy'n ymwneud â'r Gymraeg wrth benderfynu ynghylch dyfarnu grantiau i orsafoedd radio cymunedol yng Nghymru, gan gynnwys ystyried yr effeithiau ar y Gymraeg, sut mae gwella cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac osgoi unrhyw effeithiau andwyol (fel drwy osod amodau).

Rydyn ni wedi adolygu ein cyfarwyddyd ac wedi newid proses penderfynu Ofcom.

Rydyn ni'n nodi nad yw'r Comisiynydd yn bwriadu i safon 90 fod yn berthnasol mewn perthynas â'r gwasanaeth neu'r cynnwys mae'r orsaf yn ei ddarparu, gan fod gweithgarwch darlledu wedi'i eithrio o Fesur y Gymraeg (byddem hefyd yn nodi nad yw'r Gronfa Radio Cymunedol yn dyfarnu grantiau ar gyfer rhaglenni na chynnwys, ond at ddibenion cynaliadwyedd).

Mewn perthynas â (b), mae Ofcom yn ystyried na fydd safon 90 yn berthnasol yn achos grantiau sbectrwm. Fel rheol mae'r grantiau hyn wedi cael eu dyfarnu i dalu am gostau seilwaith newydd, pan nad oes posibilrwydd i ddefnyddio'r Gymraeg ac felly dim cyfleoedd i wella neu i waethygu unrhyw gyfleoedd. Ni fyddai dim diben felly

<p>cynhyrchu cyfarwyddyd ar sut byddwn yn ystyried ceisiadau am grantiau sbectrwm, felly nid ydym yn cynnig gwneud hyn nac ystyried y materion a nodir yn y safon wrth wneud y penderfyniadau hyn.</p> <p>DYFARNU CONTRACTAU Mae tîm Ofcom Cymru yn ymwybodol o'r gofynion newydd a gweithredir y newidiadau pan gynhelir proses dendro yng Nghymru pan fydd pwnc y contract yn awgrymu y dylid ei gynhyrchu yn Gymraeg.</p>		
<h2 style="text-align: center;">SAFONAU LLUNIO POLISI'AU</h2>		
<p>SUT RYDYM YN BWRIADU CYDYMFFURFIO</p>	<p>HYRWYDDO A HWYLUSO</p>	<p>GORUCHWYLIO</p>
<p>Caiff Datganiad Polisi Iaith Gymraeg Ofcom ei gyhoeddi ar wefan Ofcom.</p> <p>Mae'r ffurflen Aseu'r Effaith ar yr Iaith Gymraeg wedi cael ei datblygu i adlewyrchu'r gofynion newydd ac mae ar gael ar The Loop (mewnwyd Ofcom)</p>		
<h2 style="text-align: center;">SAFONAU GWEITHREDOL</h2>		
<p>SUT RYDYM YN BWRIADU CYDYMFFURFIO</p>	<p>HYRWYDDO A HWYLUSO</p>	<p>GORUCHWYLIO</p>

SWYDDI GWAG

Yr arfer ar hyn o bryd ydy gofyn a ydy gweithwyr newydd yn dymuno derbyn gohebiaeth/dogfennau sy'n ymwneud â'u rôl yn Gymraeg. Mae hyn yn cynnwys gwybodaeth mewn perthynas â materion disgyblu a chwynion.

Mae asesu gofynion ieithyddol swyddi gwag yn arfer ar hyn o bryd pan fydd swyddi'n dod yn wag. Caiff pob swydd wag ei hysbysebu'n ddwyieithog fel mater o drefn a bydd ffurflenni cais a gohebiaeth sy'n ymwneud â'r swydd yn ddwyieithog hefyd.

MEDDALWEDD

Mae'r rhaglen 'Cysgliad' ar gael i holl staff Ofcom Cymru.

SGILIAU/HYFFORDDIANT IAITH

Mae asesu sgiliau iaith tîm Ofcom Cymru yn arfer ar hyn o bryd. Bydd hyfforddiant yn cael ei ddarparu yn ôl y galw. Erbyn haf 2017, bydd pedwar o'r pum aelod o staff amser llawn yn Ofcom Cymru yn siarad Cymraeg yn rhugl.

